# Athrawon Nofio x 5 swydd

**Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, Canolfan Tennis a Nofio Ranbarthol (PChRhC)**
**a**
**Chanolfan Byw'n Actif (CBA)**

Lefel 1 - Gradd 3 - PCG 14 - 17 (£19,988 - £21,257)
Per hour- £10.36 - £11.02

Lefel 2 - Gradd 5 - PCG 21 - 25 (£23,895 - £26,644)
Per hour- £12.38- £13.81

ynghyd â buddion

Swyddi dan gontract

| Swydd 1 | Swydd 2 | Swydd 3 | Swydd 4 | Swydd 5 |
|---|---|---|---|---|
| **PChRhC** | **PChRhC** | **PChRhC** | **CBA** | **CBA** |
| Dydd Mercher 16:00 – 19:30 | Dydd Gwener 15:00 - 19:30 | Dydd Gwener 16:00 - 19:30 | Dydd Sadwrn 09:00 - 15:00 (gan gynnwys egwyl 30mun) | Dydd Sul 08:00 - 14:00 (gan gynnwys egwyl 30mun) |
| Dydd Iau 16:00 – 19:30 | Dydd Sul 09:00 - 13:00 | Dydd Sul 09:00 - 13:00 | | |
| Dydd Sul 09:00 - 13:00 | | | | |
| **11.75 awr** | **9 Awr** | **8 Awr** | **5.75 Awr** | **5.75 Awr** |

*** Byddem yn croesawu ceisiadau sy'n cynnig swyddi wedi'u cyfuno*

Mae Casnewydd Fyw yn ymddiriedolaeth arobryn nid er elw sy'n ymwneud â chwaraeon, hamdden a diwylliant; ac yn Elusen gofrestredig y DU sydd â hanes ardderchog o ddarparu rhaglenni a gwasanaethau arloesol i'n cymunedau a'n trigolion sy'n *'ysbrydoli pobl i fod yn hapusach ac yn iachach'.*

Rydym yn dymuno recriwtio Athrawon Nofio â chymwysterau addas i ymuno â'n Tîm Nofio yn y Ganolfan Tennis a Nofio Ranbarthol a rhaglenni'r Ganolfan Byw'n Actif.

Byddwch yn aelod allweddol o'r tîm o ran darparu a chynnal gwersi nofio effeithiol o ansawdd uchel i blant, pobl ifanc ac oedolion, yn rhan o'n rhaglen nofio integredig.

Byddwch yn meddu ar gymhwyster Athrawon Nofio Lefel 1 ASA/STA o leiaf, ynghyd â phrofiad perthnasol o hyfforddi, gan ddangos y gallu i ddarparu gwersi nofio o ansawdd uchel i bobl ifanc ac oedolion ar draws ystod eang o alluoedd.

Mae'r swydd wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) ac mae'n amodol ar wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) llwyddiannus.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch ag ymholiadau Casnewydd Fyw ar 01633 656757
a gofyn i siarad â Richard Dale, Pennaeth Datblygu Busnes neu e-bostiwch richard.dale@newportlive.co.uk

**Proses Ymgeisio**

Ewch i Gyrfaoedd Casnewydd Fyw | Hafan i gwblhau ffurflen gais, fel arall, gallwch ofyn am ffurflen gais gan Human.Resources@newportlive.co.uk.


# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **SWYDD:** | **Athro Nofio** |
| **DIBEN Y SWYDD:** | Cynorthwyo'r Rheolwr Nofio i weithredu rhaglen Casnewydd Fyw, Dysgu i Nofio Wythnosol. Cyflwyno a gwerthuso gwersi nofio (gan ddilyn rhaglen newydd Dysgu Nofio Cymru) |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Nofio / Cynorthwy-ydd Nofio |
| **CYFLOG:** | Lefel 1 – Gradd 3 (PCG 14-17) (£19,988- £21,257)<br>Lefel 2 – Gradd 5 (PCG 21-25) (£23,895- £26,644) |
| **PERTHNASOEDD ALLWEDDOL:** | Aelodau'r cyhoedd, Rheolwr Nofio, Cynorthwy-ydd Nofio, Prif Hyfforddwr Nofio, a holl gydweithwyr Casnewydd Fyw. |
| **PRIF LEOLIAD:** | **Canolfan Tennis a Nofio Ranbarthol a'r Ganolfan Byw'n Actif** |
| **CYFRIFOLDEB RHEOLI:** | Gwersi Nofio – Disgyblion |

**Byddaf yn llwyddiannus yn fy rôl pan**:

- Fydd fy holl gyfrifoldebau gweithredol allweddol yn cael eu cyflawni'n gyson i safon uchel.
- Byddaf yn cyflawni'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n benodol i'm rôl.
- Byddaf yn fodel rôl ar gyfer gwerthoedd ymddygiadol Casnewydd Fyw drwy fy mherfformiad.
- Byddaf yn cydweithio ar draws adrannau a gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i gwsmeriaid Casnewydd Fyw.
- Trwy fy mherfformiad a'm hangerdd, rwy'n

**SUT MAE FY MHERFFORMIAD YN CAEL EI**




***DATGELU A GWAHARDD:***

Gall y swydd hon olygu y byddwch mewn cysylltiad â phlant, yr henoed, pobl sâl neu anabl. Mae Casnewydd Fyw yn gofyn felly, yn ôl Gorchymyn (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol, gorchymyn rhwymo neu rybudd, gan gynnwys y rhai a ystyrid fel eu bod wedi eu disbyddu. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais. Bydd ceisiadau'n cael eu dychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn destun Gwiriad Datgelu a Gwahardd.

NEWPORT LIVE CASNEWYDD FYW

| CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL: | |
|---|---|
| **1** | Dysgu gwersi nofio yn rhan o Raglen Nofio Integredig y ddinas a dilyn fframwaith Addysgu newydd Dysgu Nofio Cymru. |
| **2** | Paratoi, gweithredu a gwerthuso cynlluniau gwaith er mwyn sicrhau datblygiad parhaus i bob plentyn. |
| **3** | Cadw cofnodion cywir o'r holl gyfranogwyr gan gynnwys presenoldeb, cyrhaeddiad a chynnydd. |
| **4** | Sicrhau bod cynlluniau gwersi a chofnodion cyflawni yn cael eu cadw'n gywir a'u dychwelyd at bob cydweithiwr perthnasol |
| **5** | Hyrwyddo nofio a helpu i ddarparu cysylltiadau â phob clwb dŵr, i bob plentyn a rhiant sy'n mynychu Rhaglen Ddysgu Wythnosol Nofio Cymru. |
| **6** | Bod yn gyfrifol am baratoi cyfleusterau ac offer yn ddiogel fel sy'n ofynnol gan y rhaglen Dysgu Nofio, ac am wirio'r cyfleusterau a'r offer a ddefnyddir gan Gynorthwywyr Hamdden. |
| **7** | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol statudol ac yn arbennig Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) a Deddf Amddiffyn Plant. |
| **8** | Parodrwydd i gynorthwyo i drefnu a chynnal galas a digwyddiadau Nofio. |
| **9** | Ymgymryd â hyfforddiant, yn ôl yr angen, yn rhan o raglen ddatblygu barhaus Datblygu Nofio. |
| **10** | Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol |
| **11** | Mynychu Fforymau/Cyfarfodydd Hyfforddwyr Nofio yn ôl yr angen. |
| **12** | Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r radd yn ôl gofynion y Rheolwr Nofio, y Cynorthwy-ydd Nofio, a'r Prif Hyfforddwr Nofio. |

**Mae disgwyl i'r person sy'n gwneud y swydd hon weithio o fewn polisïau, ethos a nodau Casnewydd Fyw a chyflawni dyletswyddau eraill y gallai Prif Weithredwr Casnewydd Fyw eu rhoi iddo. Mae'r cyfrifoldebau uchod yn destun y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cyffredinol sydd yn y Datganiad Amodau Cyflogaeth.**

**Gall dyletswyddau'r swydd hon amrywio o bryd i'w gilydd heb newid naws gyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb sydd ynghlwm â hi.**

**Bydd deiliad y swydd yn gweithio i gyflawni amcanion perfformiad y cytunir arnynt; caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ffurfiol trwy brosesau rheoli perfformiad Casnewydd Fyw.**

NEWPORT LIVE
CASNEWYDD FYW

# ATHRO NOFIO – MANYLEB PERSON

| Ardal | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | 1.1 Cymhwyster Athrawon Nofio Lefel 1 ASA/STA (FfG) o leiaf | 1.1 Cymhwyster Athrawon Nofio Lefel 2 ASA/STA (FfG) o leiaf<br><br>1.3 Meddu ar gymhwyster Athrawon Achub Bywyd STA/RLSS (FfG)<br><br>1.4 Meddu ar gymhwyster dysgu Oedolion a Phlant perthnasol (FfG) |
| **Gwybodaeth, Sgiliau a Medrau** | 2.1 Gwybodaeth ymarferol am Raglen Dysgu Nofio Cymru (FfG/C/P)<br><br>2.2 Gwybodaeth a dealltwriaeth o Bolisïau Diogelu Plant mewn amgylchedd pwll nofio (FfG/C)<br><br>2.3 Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, gyda chydweithwyr neu gwsmeriaid (FfG/C/P)<br><br>2.4 Y gallu i fod yn hyderus ac yn bendant pan fo angen, ac eto wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion gwasanaeth da i gwsmeriaid (C)<br><br>2.5 Y gallu i weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun (C/P)<br><br>2.6 Y gallu i weithio gyda phobl ifanc o wahanol gefndiroedd a gyda phlant/oedolion sydd ag anghenion penodol (C) | 2.7 Gwybodaeth am ganllawiau/safonau nofio (C) |
| **Profiad** | 3.1 Profiad mewn trefnu, cynllunio a darparu sesiynau nofio strwythuredig ac addasu i alluoedd, anghenion ac oedrannau amrywiol (FfG/C/P)<br><br>3.2 Profiad ymarferol o leiaf chwe mis o gyflwyno gwersi nofio i blant / oedolion mewn amgylchedd hamdden (FfG/C)<br><br>3.3 Cynnal safon uchel o wasanaeth cwsmeriaid (FfG/C/P) | 3.4 Gweithio gyda phobl sydd ag anabledd mewn rhaglen chwaraeon (C) |
| **Nodweddion Personol** | 4.1 Hunan-gymhelliant a phrydlondeb (C)<br><br>4P2 Amynedd a dealltwriaeth wrth weithio gyda phob disgybl gan gynnwys plant/oedolion/grwpiau ag anghenion penodol (C/P)<br><br>4.3 Dangos lefelau uchel o broffesiynoldeb mewn ymddygiad  gwisg. | 4.4 Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant a datblygu proffesiynol parhaus (FfG/C) |

| | | |
|---|---|---|
| | Gallu dangos ymrwymiad i ddatblygiad personol parhaus (C) | |
| **Arall** | 5.1 y gallu i weithio oriau hyblyg (FfG)<br><br>5.2 Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo Polisi Cyfle Cyfartal Cyngor Casnewydd Fyw yn gadarnhaol (C) | |

**Dull asesu (*D.A.)**

FfG: Ffurflen gais (gan gynnwys llunio rhestr fer)
T: Tystysgrif
Y: Ymarfer
C: Cyfweliad
Cyf: Cyflwyniad
P:  Prawf
CA: Canolfan Asesu